# Canllaw cam wrth gam i Fyfyrwyr ar y Broses Arfer Annheg

Bwriad y canllaw hwn yw rhoi syniad i fyfyrwyr beth i'w ddisgwyl os cânt eu hysbysu bod honiad o Arfer Annheg (y cyfeirir ato hefyd fel 'camymddwyn academaidd') wedi'i wneud mewn perthynas ag un neu fwy o'u hasesiadau.

Mae llawer mwy o wybodaeth, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn sy'n cyfrif fel Arfer Annheg, ar gael ar y dudalen we Arfer Annheg ac mae'r gweithdrefnau llawn i'w gweld yma yn y Llawlyfr Academaidd.

## 1. Yr ysgol yn cyfeirio honiad o Arfer Annheg at Wasanaethau'r Gofrestrfa

Os bydd amheuaeth, wrth farcio asesiad neu oruchwylio arholiad, bod Arfer Annheg wedi digwydd, bydd yr ysgol yn anfon Honiad o Arfer Annheg at Wasanaethau'r Gofrestrfa, a fydd yn prosesu'r achos ac yn y pen draw yn cyhoeddi'r canlyniad.

Os yw'r honiad yn ymwneud â chydgynllwynio (gweithio gyda rhywun arall ond yn cyflwyno gwaith yn unigol), byddwch eisoes wedi cael eich cyfweld gan eich ysgol neu goleg partner wrth iddyn nhw geisio pennu'r rheswm dros unrhyw debygrwydd rhwng gwaith myfyrwyr.

Fel arfer bydd tîm y rhaglen yn rhoi gwybod i'r myfyriwr/myfyrwyr bod honiad wedi'i wneud.

## 2. Caiff yr honiad ei adolygu gan Wasanaethau'r Gofrestrfa

Bydd tîm Arfer Annheg Gwasanaethau'r Gofrestrfa yn adolygu'r adroddiad o honiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ysgol, ac yn casglu rhagor o dystiolaeth a/neu wybodaeth os oes angen. Yn dibynnu ar fanylion yr honiad, bydd un o'r canlyniadau isod yn berthnasol o fewn ychydig wythnosau i'r Gofrestrfa dderbyn yr honiad:

i. Llythyr Cosb Benodedig (drwy e-bost) gyda'r dewis o dderbyn Cosb Benodedig neu ofyn i Bwyllgor Ymchwilio wrando ar eich achos

ii. Llythyr y Pwyllgor Ymchwilio (drwy e-bost), yn eich hysbysu y bydd angen i'r achos gael ei ystyried gan Bwyllgor Ymchwilio ffurfiol

iii. Gollwng yr achos

Dyma beth y gallwch ei ddisgwyl gyda phob dewis.

### i. Llythyr Cosb Benodedig

Fel arfer byddwn yn anfon hwn os mai dyma yw'r drosedd gyntaf neu'r ail drosedd (ac os felly gall fod yn Gosb Benodedig Ail Lefel) a bod yr honiad yn ymwneud â chyflwyniad sy'n werth llai na 30 credyd.

Bydd y Llythyr Cosb Benodedig yn nodi pa asesiad(au) y mae'r honiad yn ymwneud ag ef a pha fath o Arfer Annheg y tybir iddo ddigwydd (e.e. llên-ladrad, cydgynllwynio ac ati). Bydd unrhyw dystiolaeth berthnasol a anfonwyd gan yr ysgol hefyd yn cael ei hatodi.

Bydd y llythyr yn egluro y gallwch naill ai dderbyn y Gosb Benodedig neu ofyn i'ch achos gael ei ystyried gan Bwyllgor Ymchwilio ffurfiol (panel o staff academaidd).

Bydd gennych 14 diwrnod i ymateb i'r e-bost. Os na fyddwch yn ymateb o fewn yr amserlen hon byddwch yn cael Cosb Benodedig yn awtomatig a byddwch yn colli'ch hawl i herio'r honiad.

### Dewis rhwng Cosb Benodedig a Phwyllgor Ymchwilio

Mae derbyn Cosb Benodedig hefyd yn golygu derbyn bod Arfer Annheg wedi digwydd, felly dylai myfyrwyr ddeall bod gwneud hynny'n golygu na allwch gyflwyno apêl mewn perthynas â'r honiad hwnnw o Arfer Annheg yn ddiweddarach.

*Sylwch: Hyd yn oed os byddwch yn penderfynu derbyn y Gosb Benodedig o fewn y pythefnos a nodir, byddwch wedi methu'r asesiad a byddwch yn cael eich ailasesiad (os ydych yn gymwys) yr un pryd ag unrhyw un arall sydd wedi methu'r modiwl – mae hyn yn golygu y bydd angen i chi aros nes i'r Bwrdd Arholi gwrdd a chadarnhau'r ailasesiad. Os ydych yn fyfyriwr yn eich blwyddyn olaf, mae hyn yn golygu efallai na fyddwch yn cael eich dyfarniad mewn pryd ar gyfer seremonïau graddio'r flwyddyn honno. Fodd bynnag, byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu seremoni yn y dyfodol.*

Os hoffech herio eich achos gan nad ydych yn credu bod Arfer Annheg wedi digwydd, dylech ddewis yr opsiwn Pwyllgor Ymchwilio. Sylwch y gallai gymryd hyd at 8 wythnos waith i gyfarfod o'r pwyllgor gael ei alw.

Os oes angen cymorth arnoch i wneud penderfyniad mae Undeb y Myfyrwyr ar gael i roi cyngor diduedd (nodir y manylion hyn yn y llythyr Cosb Benodedig) ac mae Cwestiynau Cyffredin ar y dudalen we Arfer Annheg. Os oes gennych gwestiwn sydd heb ei ateb ar y dudalen honno, anfonwch e-bost at aup@cardiffmet.ac.uk

Unwaith y byddwch wedi dod i benderfyniad ac wedi ymateb i'r llythyr Cosb Benodedig drwy e-bost, byddwch yn cael ymateb gan y Tîm Arfer Annheg yn cadarnhau'r camau nesaf a chadarnhad pellach o'r Gosb Benodedig neu'r Pwyllgor Ymholi. Os ydych wedi dewis y Gosb Benodedig, gweler adran 4. Ailasesu isod.

## ii. Llythyr y Pwyllgor Ymchwilio

Os byddwch yn cael llythyr Pwyllgor Ymchwilio, bydd hyn oherwydd

- bod hyn yn angenrheidiol oherwydd natur yr honiad (trosedd ddifrifol a/neu drydedd drosedd);

- bod y modiwl dros 30 credyd;

neu

- eich bod wedi gofyn i Bwyllgor Ymchwilio ffurfiol wrando ar eich achos.

Gall gwrandawiad pwyllgor gymryd hyd at 8 wythnos waith i gynnull. Unwaith y byddwn wedi pennu dyddiad, byddwn yn anfon e-bost atoch eto, gan roi rhagor o wybodaeth i chi am aelodau Panel y

Pwyllgor a manylion ynghylch pa wybodaeth sydd ei hangen ynghylch eich presenoldeb a/neu unrhyw ddatganiadau.

### iii. Gollwng yr achos

Os penderfynir, ar ôl ymchwiliad pellach, y dylid gollwng yr honiad o Arfer Annheg (nid yw'n cyfrif fel Arfer Annheg neu fod tystiolaeth annigonol o Arfer Annheg), bydd y tîm Arfer Annheg yn anfon e-bost atoch chi a'ch ysgol/coleg partner i gadarnhau hyn.

Pan fydd achos yn cael ei ollwng ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd a chaniateir i chi gadw eich marc gwreiddiol ar gyfer y cyflwyniad / arholiad hwnnw.

## 3. Os caiff yr achos ei ystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio

Panel o academyddion yw’r Pwyllgor Ymchwilio a fydd yn ceisio sefydlu, yn ôl pwysau tebygolrwydd o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, a oes Arfer Annheg wedi digwydd neu beidio. Caiff Pwyllgorau Ymchwilio eu cynnal yn rhithiol drwy Microsoft Teams ac mae gennych hawl i fynychu'r gwrandawiad a/neu ddarparu datganiad i'w ystyried.

### Cyn y pwyllgor

Cyn i'r pwyllgor wrando ar eich achos, bydd y tîm Arfer Annheg yn ysgrifennu dogfen friffio i'w hystyried gan aelodau'r panel. Bydd copi o'r ddogfen hon yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost tua wythnos cyn dyddiad y pwyllgor, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall sy'n cael ei hystyried. Byddwch hefyd yn cael dyddiad cau i ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol ar gyfer y panel sy'n berthnasol i'ch achos.

### Mynychu’r pwyllgor

Os hoffech fod yn bresennol dylech roi gwybod i'r tîm Arfer Annheg yng Ngwasanaethau'r Gofrestrfa, a fydd yn anfon e-bost pellach atoch gyda manylion llawn sut i wneud hynny. Fel arall, gallwch ofyn am i aelod o Undeb y Myfyrwyr eich cynrychioli yn eich absenoldeb, fodd bynnag, mewn achosion o’r fath anogir myfyrwyr i gyflwyno datganiad i’r pwyllgor ymlaen llaw, gan na allai cynrychiolydd ateb cwestiynau ar eich rhan ynglŷn â chynhyrchu neu gyflwyno aseiniad a dim ond tystio bod y gweithdrefnau'n cael eu dilyn yn gywir. **Bydd y Pwyllgor yn gwrando ar eich achos p'un a ydych yn mynychu ai peidio.**

Mae hawl gan fyfyrwyr i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu gyda nhw i'r Pwyllgor fel cefnogaeth, ond mae angen rhoi gwybod i Wasanaethau'r Gofrestrfa ymlaen llaw. Mae gweithdrefnau Arfer Annheg y Brifysgol hefyd yn nodi bod yn rhaid i’r myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol os oes gan yr unigolyn fydd yn dod gyda nhw unrhyw gymwysterau cyfreithiol – chawn nhw ddim mynychu mewn rhinwedd gyfreithiol.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Saesneg (neu yn Gymraeg os gwneir cais am hynny). Os ydych yn poeni am gyfrannu yn Saesneg, gallwch drefnu i rywun ddod gyda chi a all gyfieithu ar eich rhan.

### Canlyniad y Pwyllgor Ymchwilio

Unwaith y bydd y Pwyllgor Ymchwilio wedi'i gynnal, anfonir llythyr canlyniad ac adroddiad atoch drwy e-bost o fewn 5 diwrnod gwaith (p'un a oeddech yn bresennol ai peidio).

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad oes Arfer Annheg wedi digwydd, byddwch yn cael cadw eich marc asesiad gwreiddiol fel arfer. Efallai y cewch eich cyfeirio at wasanaethau eraill y Brifysgol am gymorth ychwanegol.

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod Arfer Annheg wedi digwydd, bydd manylion unrhyw gosb yn cael eu cadarnhau yn eich llythyr canlyniad a byddwch yn cael eich cyfeirio at unrhyw gymorth ychwanegol os yw'n briodol.

## 4. Ailasesu

P'un a oes cadarnhad o Arfer Annheg ai peidio, mae'n debygol nad yw'ch marc asesu wedi'i gadarnhau gan Fwrdd Arholi eto, felly bydd angen i chi aros am ganlyniad swyddogol y Bwrdd Arholi i gael cadarnhad o'ch canlyniad.

Os ydych yn gymwys i gwblhau ailasesiad ar gyfer y modiwl(au) yr effeithiwyd arnynt, caiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan eich ysgol neu goleg partner unwaith y bydd eich proffil wedi cael ei ystyried gan Fwrdd Arholi.

Fyddwch chi ddim yn cael cynnig ailasesiad yn gynt na myfyrwyr eraill sydd wedi methu'r modiwl. Mae hyn yn golygu y bydd eich cynnydd neu ddyfarniad yn cael ei ohirio tan ar ôl i chi gwblhau eich ailasesiad. Os ydych yn fyfyriwr yn eich blwyddyn olaf, mae hyn yn golygu efallai na fyddwch yn cael eich dyfarniad mewn pryd ar gyfer seremonïau graddio'r flwyddyn honno. Fodd bynnag, byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu seremoni yn y dyfodol.

## 5. Apêl y Pwyllgor Ymchwilio

Gall myfyrwyr apelio yn erbyn canlyniad Pwyllgor Ymchwilio os ydynt yn bodloni o leiaf un o'r ddwy sail benodol dros apelio:

> *1. Anghysondebau wrth gynnal y weithdrefn Arfer Annheg a allai fod wedi effeithio ar benderfyniad y Pwyllgor*
>
> *2. Amgylchiadau personol eithriadol sy'n berthnasol i'r Arfer Annheg na ellid bod wedi rhoi gwybod amdanynt i'r Pwyllgor cyn ei gyfarfod*

Gall Undeb y Myfyrwyr gynghori myfyrwyr ynghylch a oes ganddynt sail wirioneddol i apelio. Bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth ategol a rhaid cyflwyno apêl **o fewn 14 diwrnod i lythyr canlyniad eich Pwyllgor Ymchwilio** drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein berthnasol.

Sylwch, rhaid i chi barhau i ddilyn y canlyniad blaenorol a gyhoeddwyd tra bydd eich apêl yn cael ei hystyried. Mae hyn yn golygu y dylech gadw at unrhyw derfynau amser ailasesu a gyhoeddwyd, gan nad oes sicrwydd y caiff eich apêl ei chadarnhau.

# 6. Cymorth i Fyfyrwyr

## Cymorth Gweithdrefn Arfer Annheg

Os oes angen cymorth arnoch i ddeall neu i drafod y weithdrefn neu'r broses Arfer Annheg, mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu cyngor diduedd ar reoliadau a gweithdrefnau academaidd, gan gynnwys Arfer Annheg: www.cardiffmetsu.co.uk/support/academic/

E-bost: suadvice@cardiffmet.ac.uk

## Cymorth Sgiliau Academaidd

Os ydych yn teimlo bod angen rhagor o gefnogaeth arnoch gyda'ch gwaith ysgrifennu academaidd neu os oes gennych gwestiynau am sut i wneud yn siŵr eich bod yn cyfeirnodi eich asesiadau'n gywir (yn enwedig os ydych chi eisoes wedi derbyn cosb am Arfer Annheg ac eisiau osgoi gadael i hynny ddigwydd eto), mae'r Gwasanaethau Llyfrgell yn darparu gwybodaeth am Sgiliau Academaidd a hyfforddiant Arfer Academaidd.

## Cymorth Llesiant Myfyrwyr

Os ydych yn cael trafferth gyda'ch llwyth gwaith academaidd a/neu amgylchiadau personol ac yn teimlo bod angen i chi siarad â rhywun, gallwch gysylltu â'r Tîm Llesiant Myfyrwyr yn y Gwasanaethau Myfyrwyr.

Sylwch, bydd angen i fyfyrwyr yn ein sefydliadau partner ddefnyddio Gwasanaethau Myfyrwyr lleol.